ymgyrch CYMRU

**Cylchlythyr Aelodau CND Cymru** Rhif 15 Chwef. - Ebr. 1990 **20c**

# Llwyddiant a gobaith

**Dethlir llwyddiant ymgyrch PAWB a'r gobeithion am ddiarfogi yn Ewrop yng Ngŵyl Cymru Ddi-niwclear ym Mangor y mis yma (Chwefror).**

Bydd yr ŵyl yn ddiwrnod i'w gofio i'r holl deulu – gyda meithrinfa ar gyfer babanod, gŵyl arbennig i'r plant, a cherddoriaeth, barddoniaeth, trafodaethau ac arddangosfa i'r oedolion. Mae'r trefnwyr yn addo'r cyfanfwyd gorau yng ngogledd Cymru!

Cynhelir yr ŵyl yn Safle'r Fenai, y Coleg Normal, ar y ffordd o Fangor i Gaergybi, a bydd yn para o 11.30 a.m. tan 5 p.m. ddydd Sadwrn, Chwefror 24ain. Y pris mynediad fydd £1.50 neu 75c (digyflog); plant yn cael mynd mewn yn rhad ac am ddim.

Ymhlith y perfformwyr gwâdd bydd y gantores brotest Maria Tolly o Loegr, The Peacemakers o Lannau Mersi, Bob Delyn o Gymru a'r band Gwyddelig, Giro City. Ddylai neb golli perfformiad Ian Saville, y 'Consurwr Sosialaidd'!

Ymhlith y siaradwyr gwâdd mae Meg Beresford, ysgrifennydd cyffredinol yr Ymgyrch dros Ddiarfogi Niwclear a fydd hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaeth ar yr amgylchedd a datblygiad. Pynciau eraill fydd: Cymru yn y 'Cartref Ewropeaidd Cyffredin'; Môr Celtaidd Di-niwclear? – a dyfodol CND Cymru yn y 1990au.

Bydd beirdd Cymraeg a Saesneg yn darllen eu gwaith a bydd y gwneuthurwr printiau byd-enwog Paul Peter Piech – ' sydd yn byw yn ne Cymru – ' yn arddangos detholiad o'i bosteri ar heddwch a datblygiad.

Gellwch brynu rhaglen i sicrhau mynediad oddi wrth y Tŷ Gwydr,1 Trevelyan Terrace, Bangor (£1.50 neu £75c yr un). Danfonwch amlen fawr wedi ei stampio a'i chyfeirio. Am wybodaeth bellach, ffoniwch CND Cymru ar (0766) 831356.



Peter Burt

GWEITHREDU AR Y MÔR – "I'r cychod!" oedd hi pan ymweleodd y llong ryfel HMS Jupiter, a all gario arfau niwclear, â Chaerdydd ym mis Ionawr. Daeth ymgyrchwyr heddwch yn agos at y llong ger Penarth. Gwel. tud. 2.

# CYNLLUN RHYFEL-N Y BYNCAR

**Mae sir 'ddi-niwclear' Morgannwg Ganol wedi cydymffurfio â chynlluniau'r Llywodraeth am ryfel niwclear drwy gytuno i adeiladu byncar rheolaeth argyfwng, yn costio mwy na £1,000,000.**

**Bydd y byncar yn ychwanegiad pwrpasol i lys ynadon newydd yn Llwynypia yn y Rhondda, gyda lle i'r 110 o swyddogion sydd i fod i redeg Morgannwg Ganol yn ystod ymosodiad niwclear a wedi hynny.**

**Daeth penderfyniad y cyngor sir i adeiladu'r ganolfan reoli i'r amlwg wyth mlynedd wedi i ymgyrchwyr dros heddwch weithredu'n uniongyrchol i atal gwaith ar fyncar ym Mhenybont ar Ogwr. Cychwynnodd CND Morgannwg Ganol ymgyrch yn erbyn y byncar cyn gynted ag y clywyd son am y cynllun yn gynnar ym mis Rhagfyr.**

**Mae rheolaethau'r Swyddfa Gartref yn ei gwneud hi'n gwbl amlwg mai diben adeiladu 'canolfannau reoli mewn argyfwng' yw i'w defnyddio yn ystod rhyfel niwclear. Dyluniwyd adeilad y Rhondda i allu gweithredu am ddwy wythnos heb bŵer canolog na dŵr, ac i gynnig amddiffyniad yn erbyn ymbelydredd.**

**Dywed cynghorwyr Llafur a bleidleisiodd dros y cynllun eu bod o dan bwysau gan y Swyddfa Gartref, a mynnant y gallent gael eu cosbi'n bersonol pe gwrthodent gydweithredu.**

**Mewn cyfarfod ar y lefel uchaf gydag CND Morgannwg Ganol, daeth cynghorwyr o hyd i ffyrdd eraill o gyfiawnhau eu cydweithredu gyda chynlluniau rhyfel y Llywodraeth. Hawliodd Clerc y Sir, Hugh Thomas eu bod yn gwneud y 'lleiafswm' angenrheidiol er aros o fewn y gyfraith, a dywedodd y**

I dudalen 3

DEWCH I'R ŴYL YM MANGOR AR CHWEFROR 24

# MÔR DI-NIWCLEAR

## ATAL Y LLONGAU TANFOR

**Wyddoch chi mor anodd y gall fod i drefnu cael y teulu at ei gilydd am y Nadolig? Wel, dychmygwch geisio trefnu cyfarfod cyhoeddus, argraffu taflenni, trefnu i'w dosbarthu, cynhyrchu fideo, trefnu dau ddigwyddiad stryd, cwblhau geiriad hysbyseb noddedig yn y papur lleol, cael digon o bobl i lenwi cyfarfod o'r cyngor fore diwrnod gwaith a hysbysu'r cyfryngau o'r holl ddigwyddiadau hyn!**

Dyna oedd cynlluniau uchelgeisiol braidd grŵp Atal Llongau Tanfor Abertawe pan glywsom ychydig cyn y Nadolig y byddai Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg yn pleidleisio ar y cynnig o blaid doc llongau tanfor niwclear (Z-berth) ar Ionawr 12fed.

Roeddem am gyffroi gwrthwynebiad y cyhoedd i gynlluniau'r llynges er mwyn dylanwadu ar bleidlais y cyngor. Fel y digwyddodd, clywsom ar Ragfyr 29ain fod y bleidlais wedi ei gohirio (eto). Dyna un broblem fawr yr ydym yn ei hwynebu: fyddwn ni byth yn gwybod i sicrwydd pa bryd y bydd y Cyngor yn pleidleisio ar y cynllun.

Cynhaliwyd y rhan fwyaf o'r digwyddiadau beth bynnag. Denodd yr hysbyseb noddedig gryn dipyn o sylw, ac yn ddiamau cyfrannodd tuag at y nifer dda iawn a ddaeth i'r cyfarfod cyhoeddus. Dadleuodd Damian Durrant o Greenpeace yr achos yn erbyn y Z-berth yn dda iawn, a chafodd yr achlysur (a'r gweddill) sylw eang yn y cyfryngau.

I ble yr a'r ymgyrch o'r fan hon? Mae gan Gyngor Sir Gorllewin Morgannwg fwyafrif Llafur amhosib ei guro; mae'r Cyngor yn ei grynswth, a bron pob un o'r cynghorwyr Llafur yn gwrthwynebu'r Z-berth yn gyhoeddus. Ac eto, cred pob aelod o'r Blaid Lafur a chynghorwyr Llafur yn y grŵp 'Atal y Llongau Tanfor' y penderfyna'r grŵp Llafur yn y pen draw, megis Pontius Pilat, i ganiatau i'r Llynges sefydlu Z-berth.

Mae'r gred eang hon, ynghŷd â'r amheuaeth bod rhai o uchel swyddogion y cyngor wrthi'n tanseilio gwrthwynebiad cyhoeddus y Cyngor, a dôs eger o gyfrinachedd obsesiynol y Cyngor a'r Weinyddiaeth Amddiffyn, yn ei gwneud hi'n anodd iawn gwybod beth yn y byd sy'n digwydd go iawn.

Bwriadwn gynhyrchu sticeri ceir a wedi hynny crysau-T a bathodynnau, i alluogi pobl gyffredin i ddangos eu gwrthwynebiad. Gobeithiwn hefyd drefnu un neu ddwy o ystrywiau cyhoeddusrwydd gweledig dros ben, er mwyn cadw'r mater yn y papurau.

O fewn strwythur y Cyngor, rhaid parhau i gefnogi'r cynghorwyr hynny y gallwn ddibynnu arnynt a rhaid i ni drefnu lobi effeithiol gyda gweddill y cynghorwyr. Gobeithio bydd y fideo a gynhyrwchwyd gan rai o weithredwyr 'Atal y Llongau Tanfor' yn ffordd effeithiol o gael mynediad i gyfarfodydd ward y blaid Lafur, yn ogystal â grwpiau eraill ledled y sir.

I gloi, rhaid i ni sylweddoli, er bod gan y Cyngor Sir rywfaint o bwer yn y sefyllfa hon, mai'r Llynges y bydd raid i ni ei darbwyllo yn y pen draw i beidio dod â llongau tanfor niwclear i Abertawe. Gall Cyngor Sir Gorllewin Morgannwg naill ai ein helpu neu ein llyffetheirio, ond os gallwn ddangos i'r Llynges nerth gwrthwynebiad lleol, ni ddaw ymweliadau gan longau tanfor niwclear yn un o nodweddion rheolaidd bywyd Abertawe.

**Brian Jones**
**CND Abertawe**

## CYRCH AR Y MÔR

**Cynhaliwyd gwrthdystiad gwrth-niwclear cryf yn erbyn llong ryfel y llynges, HMS Jupiter pan ymwelodd â Chaerdydd ym mis Ionawr. Cyfarchodd ymgyrchwyr '-Diarfogwch y Moroedd' y ffrigad ag arwyddlun CND anferth yn crogi oddi ar glogwyni Penarth a baner enfawr â'r neges 'Moroedd Di-niwclear'.**

**Yn ogystal â'r gwrthdystiad ar dir, aeth ymgyrchwyr mewn cychod rwber i gwrdd â'r ffrigad a'i hebrwng drwy Fae Caerdydd. Cymysgedd o weithredwyr lleol ac aelodau'r grŵp 'Sea Action' o Brighton, a deithiodd i dde Cymru yn unswydd er cymryd rhan yn y brotest, oedd criwiau'r cychod.**

**Yn yr wythnos cyn ymweliad y ffrigad, cynhaliwyd piced y tu allan i swyddfa ricriwtio'r Fyddin, y Llynges a'r Awyrlu yng Nghaerdydd a dosbarthwyd taflenni yn tynnu sylw at yr adnoddau a wastraffwyd wrth adeiladu llong ryfel megis HMS Jupiter, a'i rhedeg.**

**Ffrigad o'r dosbarth Leander yw HMS Jupiter, a adeiladwyd ar ddiwedd y 1960au. Yn ôl arbenigwyr ar y llynges roedd y math hwn o gwch yn hen ffasiwn erbyn i HMS Jupiter ddechrau gwasanaethu, ac ym 1983 gwariwyd y swm anferth o £70 miliwn i'w haddasu i ddygymod â'r systemau arfau diweddaraf.**

**Gwrthododd y Llynges gadarnhau neu wadu a oedd HMS Jupiter yn cario arfau niwclaer ar ei hymweliad â Chaerdydd. Fodd bynnag, mae'r llong yn cario hofrennydd Lynx y gellir ei ddefnyddio mewn rhyfel yn erbyn llongau tanfor i ollwng bomiau dyfnder niwclear.**

Peter Burt

## Golygyddol

**Daw hwn, llythyr newyddion cyntaf CND Cymru am y 1990au, â chyfarchion a dymuniadau gorau i chi. Mae'n siwr ein bod oll yn dal i deimlo braidd yn syfrdan gyda'r digwyddiadau a chyflymdra'r newidiadau yng nghanolbarth Ewrop, ac yn dyfalu pa gyfleoedd y cynigiant am fyd mwy heddychlon.**

Bydd rhai hyd yn oed yn holi a yw CND yn dal yn berthnasol, neu sut mae'n pwysigrwydd yn cymharu bellach â dyddiau gwrthdystiadau torfol anferth yng Nghomin Greenham a phrifddinasoedd y gorllewin ddechrau'r 80au.

Mae perygl rhyfel yn Ewrop wedi pellhau, ond tra bod arfau niwclear yn dal mewn bodolaeth, maent yn bygwth yr holl fyd, ac ni ellir symud ymlaen at sadrwydd hyd oni chwtogir yn hallt iawn ar wario milwrol. Ni all y gwledydd sy'n datblygu obeithio ffynnu tra bod gwario ar arfau dinistr torfol a'r fasnach arfau yn traflyncu cymaint o adnoddau'r byd.

Bydd y 1990au'n hanfodol bwysig o'r safbwynt hwn, ac fel mudiad heddwch cenedlaethol, dylem fod yn ystyried ar fyrder sut y gallwn ein 'diweddaru' ein hunain a chwarae ein rhan yn y broses ddiarfogi.

Yng nghynhadledd Brydeinig CND ym mis Tachwedd, newidiwyd paragraffau cyntaf amcanion a pholisi CND gyda'r bwriad o wneud iddynt adlewyrchu syniadau presennol o fewn y mudiad.

'Cred CND nad yw arfau niwclear "annibynnol" Prydain a gwersylloedd ac arfau niwclear Americanaidd ym Mhrydain yn gwneud dim oll i wneud Prydain neu'r byd yn fwy diogel, a dylid eu gwrthod a'u symud oddi yma yn unochrog a diamod.'

Ym 1982 cyhoeddodd Cymru ei bod yn wlad ddi-niwclear drwy benderfyniad democrataidd pob un o'r wyth cyngor sir. Roedd hwn yn ddatganiad o fwriad hanesyddol, a hyd yma nid yw'r un o'r siroedd wedi newid eu meddwl.

Bob blwyddyn er hynny yr ydym wedi dathlu Cymru Ddi-niwclear a gŵyl.

Eleni, bydd yr ym Mangor ar 24ain o Chwefror. Ceisiwch ddod ond os na fedrwch, cofiwch fod yn siwr o barhau eich cefnogaeth i CND Cymru ym 1990.

**Rhoda Jones**
**Golygydd**

**Dyddiadau dyddiadur CND Cymru 1990**

**Sad 10 Chwefror** - cyfarfod y Cyngor ym Mrynafon, Rhaeadr, Powys

**Sad 24 Chwefror** - Gŵyl Cymru Ddi-niwclear, Y Coleg Normal, Bangor

**Sad 21 Ebrill** - Y Gynhadledd Flynyddol, Yr Hen Goleg, Aberystwyth

**Sad 9 Mehefin** - cyfarfod y Cyngor ym Mrynafon, Rhaeadr, Powys


**Sad 15 Medi** - cyfarfod y Cyngor ym Mrynafon, Rhaeadr, Powys

**Sad 1 Rhagfyr** - cyfarfod y Cyngor ym Mrynafon, Rhaeadr, Powys

* Mae Gwesty Brynafon ar yr A470, ychydig i'r de o Raeadr. Croeso i aelodau unigol a chynrychiolwyr cyrff cysylltiedig i'r holl achlysuron hyn.

Am fwy o wybodaeth ynglŷn ag unrhyw un o'r dyddiadau hyn, cysyllter â Bob Cole, Brynelltyd, Tanysgrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd LL41 3TW (0766 831356).

# Palu celwyddau – y twyll niwclear




DIM BYNCARS! Gwrthdystiad yn erbyn byncar Penybont ym 1982

**Pam ymgyrchu yn erbyn byncar? Dyna'r cwestiwn ofynwyd yng Nghaerfyrddin, a ofynnir yn y Rhondda ac a fydd yn cael ei ofyn yn Ninefwr a Bro Morgannwg. Yr ateb syml yw mai gwastraff arian y trethdalwyr ydynt.**

Ond mae cynghorau'n enwog am wastraffu arian; yn wir, fe ddywedai rhai mai dyna un o'u hychydig ddoniau! Pam felly gwneud cymaint o stwr am fyncar? Yn syml ddigon, mae'n rhan anhepgorol o bolisi amddiffyn y llywodraeth.

Dywedir wrthym bod arfau niwclear yn atalfa. Does dim bwriad i'w defnyddio, maent yno er mwyn ein hamddiffyn rhag bygythiadau'r gelyn. Maent yn arfau neis, glân a diogel. Dydyn nhw ddim yn niweidio nac yn lladd unrhywun. Dydyn nhw ddim hyd yn oed yn peryglu unrhywun. Maent yno i'n diogelu.

Ond rhag ofn fod y gelyn yn ymosod, rhaid bod mewn sefyllfa i ofalu am y cyhoedd. Ac wele'r byncar. Canolfan gyfleus i gydgysylltu'r gwasanaethau argyfwng pe bai'r fath beth ag argyfwng niwclear yn digwydd. Bydd hwn yn ein diogelu ac yn sicrhau na ddaw niwed i'n rhan.

Mae'r byncar yn rhan annatod o gelwydd y llywodraeth ar amddiffyn. Y mae pobl yn dioddef o achos arfau niwclear. Mae pobl yn marw yn y gwledydd sy'n datblygu o ganlyniad i'r ffaith nad yw gwladwriaethau cyfoethog fel Prydain yn cyfrannu tuag at eu hanghenion. Mae pobl yn dioddef ac yn marw yn yr ynysoedd hyn o ganlyniad i'r ffaith nad yw'r llywodraeth yn gwario digon o arian ar wasanaethau.

A pham fod hyn yn digwydd? Yn syml ddigon, oherwydd bod yn llywodraeth yn gwario cymaint ar arfau. Yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, gwerir £21,100,000,000 ar 'amddiffyn'. Tybed faint o ysgolion, ysbytai a thai y gellid eu hadeiladu â'r arian hwn? Tybed faint o bobl y gellid fod wedi eu tynnu oddi ar y rhestri aros am dai neu driniaeth feddygol? Tybed faint o farwolaethau diangen y gellid fod wedi eu harbed yn y gwledydd sy'n datblygu?

Y gwir amdani yw pe digwyddai trychineb niwclear byddem yn wynebu dinistr ar raddfa nas dychmygwyd o'r blaen ac fe fyddai pob byncar yn gwbl amherthnasol. Gellid fod wedi gwario £400,000 ar amgenach dibenion yng Nghaerfyrddin, ac mae siwr y gallai trigolion Morgannwg Ganol feddwl am ddigon o bethau y gellid eu gwneud â'r £1.5 miliwn a werir ar gloddio twll yn y Rhondda.

Yr ydym yn cadw stwr oherwydd fod y byncar yn rhan o gelwydd sy'n creu dioddefaint a marwolaethau. Yn wir, dylem gadw mwy o stwr. Dydy pobl Cymru erioed wedi pleidleisio o blaid yr un byncar. Yr ydym am weld gwario ein harian ar ymdrechion i gyfoethogi ansawdd bywyd ein pobl, a phobl mewn gwledydd eraill sy'n ceisio ac yn haeddu ein cefnogaeth.

Byddwn yn parhau i ymgyrchu, ac rydym am wybod a yw'r cynghorwyr hynny a ystyrid yn gynghreiriaid gennym o'n plaid neu yn ein herbyn ar fater y byncar. Yr ydym am ddarganfod buddiannau pwy y maent yn eu cynrychioli go iawn – eiddo pobl Cymru neu lywodraeth Thatcher!

**Rhodri Glyn Thomas**
***Cadeirydd CND Cymru***

## BYNCAR

o dud 1

**byddai'r byncar yn cynnig canolfan argyfwng adeg heddwch rad i'r cyngor.**

**Telir tri chwarter y gost gan y Swyddfa Gartref, gyda'r gweddill wedi ei rannu rhwng gynghorau'r Rhondda a Morgannwg Ganol, a fydd yn cael caniatad i fenthyca mwy er mwyn talu'r bil. Ond mae CND Cymru wedi mynnu bod cannoedd o well ffyrdd o wario £1 miliwn yn y cymoedd, ni waeth o ble mae'r arian i ddod.**

**Yn y cyfarfod ym mis Ionawr, dadleuodd CND y dylai'r Cyngor ddilyn cyngor pwyllgor llywio'r awdurdodau di-niwclear ym Manceinion, a gwneud cyn lleied â phosib, tra'n aros o fewn y gyfraith.**

**Nid yw CND Cymru'n credu y byddai'r Swyddfa Gartref yn fodlon dwyn achos cyfreithiol yn erbyn Morgannwg Ganol i'w gorfodi i adeiladu byncar gwerth £1 miliwn pan mae cymaint o well fyrdd o wario'r swm hwnnw yn y cymoedd,**

**Mae'r Cyngor yn anfodlon wynebu'r gwirionedd ynglŷn â'r hyn y maent yn ei wneud. Pan gyfeiriodd aelodau dirprwyaeth CND at y 'byncar', a son am gynllyuniau i gladdu'r meirwon wedi ymosodiad niwclear, fe'u cyhuddwydo ddefnyddio 'iaith emosiynus'.**

**Ond bydd CND Morgannwg Ganol – gyda chefnogaeth CND Cymru – yn parhau i danlinellu'r gwirionedd noeth, sef bod byncars niwclear yn rhan o gynllun y Llywodraeth i dwyllo'r cyhoedd i gredu ei bod yn bosibl ymladd rhyfel niwclear.**

**Fel y dywedodd y gwyddonydd o heddychwr, Alex Comfort,: 'Nid a'r un llwyodraeth i ryfel os na all ddibynnu ar gefnogaeth ei chyhoedd.' Ymgais yw ffars 'amddiffyn sifil' i ennill cefnogaeth y cyhoedd i'r dewis niwclear drwy greu'r rhith y gallwn – gyda byncars a chynlluniau – ddod drwyddi'n ddiogel.**

**Mae'n amlwg bod Cyngor Sir Morgannwg Ganol yn ymwybodol o'r ffaith nad oes ganddynt gefnogaeth y cyhoedd i'w cynllun byncar. Gwelwyd eu nerfusrwydd yn y bobl a fynychodd y cyfarfod gydag CND ym mis Ionawr, a oedd yn cynnwys Cadeirydd y Cyngor ynghŷd â'r arweinydd a'r dirpwry arweinydd, clerc y sir, y swyddog cynllunio argyfwng a'r pensaer sirol.**

**Fel y gwnaed yn gwbl glir gan Glerc y Sir, Hugh Thomas, maent yn awchu am ennill CND i feddwl fel y nhw a thaflu'r feirniadaeth yn ôl at y Swyddfa Gartref. Ond ni all ymgyrchwyr dros heddwch anghofio'r ffaith bod y cyngor yn cydweithredu'n weithredol gyda chynlluniau rhyfel y Llywodraeth.**

**Mae teimladau yn erbyn y byncar eisoes yn gryf iawn yn y Rhondda. Os dywed Morgannwg Ganol – a Chymru – 'Na' i'r byncar hwn, gallai hynny nodi diwedd twyll 'Amddiffyn Sifil' y Rhyfel Oer.**

James Stewart

# TU FEWN DROS HEDDWCH

**Roedd y Nadolig yn nesau ac unwaith eto, edrychai fel fe bai Bob Cole yn mynd i'w dreulio ar draul Ei Mawrhydi. Arafwch biwcrocrataidd y system oedd y rheswm am hynny.**

Ar Awst 6ed 1989, aethai Bob a Rod Stallard ar fwrdd trên yng ngorsaf Cyffordd Llandudno a oedd yn cario fflasg niwclear o'r Wylfa i Sellafield. Ni sylwodd neb arnynt am beth amser, er eu bod wedi eu cadwyno eu hunain i'r fflasg a pheintio sloganau arni. Yn y sylw a roddwyd ar y newyddion a'r achos llys ei hun, tynnwyd sylw at y diffyg diogelwch hwn.

Ymddangosodd y ddau ger bron llys yn Llandudno ym mis Hydref ac fe'u dirwywyd gan fainc ddihiwmor a digydymdeimlad am niwed troseddol, cyfanswm, yn cynnwys costau, o £239 yr un.

Nid oedd gan Bob Cole yr un bwriad o dalu, ac ym Mlaenau Ffestiniog, fe'i danfonwyd i lawr gan fainc â llawer mwy o gydymdeimlad, am 14 diwrnod ar Ragfyr 12fed.

Cafwyd sylw helaeth ar y cyfryngau, adroddiadau teledu byw o 'Stiniog, a hyd yn oed modfedd neu ddwy yn y Guardian. Dangosodd cefnogaeth y mudiad i ynadon ac awdurdodau carchar fel ei gilydd gryfder y teimlad a'r ymrwymiad sydd i ddiarfogi, a gallodd Bob ailaddurno muriau ei gell â'r holl gardiau a dderbyniodd.

Ac i gloi, y newyddion da yw i Bob fod yn hogyn da, a chafodd ddod adre cyn yr Ŵyl.



YN Y DDALFA – Bob Cole yn ildio i'r heddlu yn Llandudno

# Pobl i Bobl

Treuliodd Rae Street, a gyfrannodd gymaint i Gynhadledd CND Cymru yn Aberystwyth y llynedd, ddeufis yn ystod yr hydref yn teithio o gwmpas UDA. Rhag ofn i ni ddechrau teimlo'n hunanfodlon ynghylch pros ddiarfogi'r pwerau mawr, cyhoeddwn y darnau a ganlyn o'i hadroddiad.

Mae un ffaith warthus yn amlwg yn UDA. Gwerir hanner y gyllideb genedlaethol yng ngwlad gyfoethocaf y byd ar bethau milwrol. Ac eto, ym mhob tref a dinas, ac yn y wlad, ceir tlodi eang. Nid oes dim yn gwneud dyn yn fwy ymwybodol o hynny na'r digartref.

Yn Concord, cymerais ran mewn '-Arfogaeth Fwyd', lle'r oedd tuniau o fwyd wedi eu casglu o bob rhan o'r dalaith i'w rhoi i'r tlawd a'r digartref. Gwnaed cysylltiad uniongyrchol rhwng tlodi a'r arian am arfau.

Yn Savannah, euthum i'r eglwys ddu lle gwnaeth y pregethwr hi'n gwbl amlwg bod pobl groenddu yn dal i ddioddef tlodi a hiliaeth, mewn cyferbyniad amlwg â'r adnoddau anferth sy'n mynd i ddibenion milwrol. Cyfeirir yr holl arian dan gochl 'diogelwch', ond diogelwch pwy?

Thâl hi ddim i lywodraeth Bush i gyhoeddi ei bwriadau da ar ddiarfogi pan mae cymaint o systemau arfau yn cael eu cadw a'u datblygu. Mae hyn yn neilltuol o wir yn y modd mae'r arfogaeth ar fôr yn cynyddu. Ai'r syniad yw os na fydd neb yn ei weld fydd neb yn cofio amdano?

Mae Llynges yr UD yn cynllunio ar gyfer mwy na 700 o daflegrau Cruise a saethir o'r môr na chânt eu cynnwys yn nhrafodaethau SALT. Fel sy'n digwydd yn Ewrop, mae ymgyrchoedd yn erbyn arfau ar y mor yn cynyddu.

Ym Maine, cynhaliwyd refferendwm taleithiol ar y 7 Tachwedd i atal arbrofi â thaflegrau cruise a saethir o'r môr ger eu harfordir. Enillwyd y refferendwm gyda mwy na 52 y cant o'r bleidlais. Nid yw'r refferendwm yn clymu dwylo'r llywodraeth, ond dengys duedd y farn gyhoeddus.

Bellach, mae'r ymgyrchwyr yn benderfynol o fwrw ymlaen yn y cyfeiriad hwn. Mae Llywodraethwr y dalaith yn ysgrifennu at y ddirprwyaeth Gyngresol i bwyso am waharddiad ar brofion cruise ar fôr, ac i bwyso ar lywodraeth Bush i gychwyn trafodaethau gyda'r Undeb Sofietaidd i wahardd taflegrau Cruise a saethir o'r môr. Mae gwireddu niferoedd yn bosibl bellach.

Efallai bod yr Arlywydd Bush yn siarad am heddwch – ond beth yw'r realiaeth?

# Ffrindiau o 'merica

**Roedd erthygl yn 'Ymgyrch Cymru' y gaeaf diwethaf yn annog darllenwyr i daflu ystrydebau 'Dallas' o'r neilltu ac estyn dwylo ar draws Môr Iwerydd. Rwyf yn mynd i roi cynnig ar hynny.**

**Mae rhywfaint o gynnwrf wedi bod yma ymhlith Gogledd Americaniaid o dras Gymreig, nad ydynt yn fodlon ar ddim ond canu emynau, bwyta picau ar y maen a phendroni dros ffantasiau o Gymru yn yr 'hen ddyddiau euraid'.**

**Yn wir, mae digon ohonom yma sy'n poeni digon am broblemau presennol yng Nghymru i gefnogi cyhoeddiad newydd Cymru-Gogledd America yn ymdrin â phroblemau o'r fath. 'Cyngor' yw ei enw, a byddaf yn cyfrannu erthyglau rheolaidd ar heddwch a materion niwclear yng Nghymru.**

**Pan fydd golygydd a chyfranwyr rheolaidd 'Cyngor' yn cwrdd, fe'n cawn ein hunain yn fynych yn dod yn ôl at un cwestiwn sy'n boen cyson: 'Beth allwn ni ei wneud i gefnogi a chynnal breichiau iaith, diwylliant a phobl Cymru?'**

**O ddarllen 'Ymgyrch Cymru', caf yr argraff mai rhai o'r pethau gorau y medrem eu gwneud fyddai peidio ag ethol pobl fel Reagan a Bush, rhoi terfyn ar y ras arfau a symud ein taflegrau cruise a'n gwersylloedd milwrol o wledydd Prydain.**

**Efallai y byddai rhai Americaniaid yn synnu i glywed hynny, ond byddent yn llawer tebycach o gredu hynny pe baent yn ei glywed gennych chi yn hytrach na gennyf fi.**

**A oes yna bethau eraill y carech i ni ysgrifennu yn eu cylch at ein cynrychiolwyr yn y llywodraeth?**

- **Beth am orsaf ddilyn llongau tanfor yr UD (nid NATO) ym Mreudeth?**
- **A yw 160 o orsafoedd milwrol Americanaidd yng ngwledydd Prydain yn ormod?**
- **A ydych yn poeni am arfau a ffrwydron yr UD a gedwir yng Nghaerwent?**
- **A yw'r UD yn parchu Cymru fel gwlad ddi-niwclear?**
- **Sut ydych chi'n teimlo am y ffaith bod yr UD yn prynu wraniwm o Namibia a gyfoethogir yn Capenhurst, ychydig filltiroedd i'r dwyrain i'ch ffin a Lloegr?**

**Mae gwir angen eich cymorth arnaf. Os dywedaf i'r pethau hyn wrth Americaniaid maent yn debyg o wneud dim ond dylyfu gen, meddwl, 'O, aelod arall or'r mudiad heddwch' a pharhau i wylio Dallas. Os byddaf yn dyfynnu o lythyron gennych chi, fodd bynnag, efallai y gwnant wrando.**

**Croeso i chi ysgrifennu i 'Cyngor'. Y Cyfeiriad yw: Cyngor, Griff Williams, Golygydd, 15524 81st Ave. N.E., Bothell, Wa. 98011, UDA.**

Carole Woods

# Nôl yn yr U.S.S.R.?

**Fel aelod o ddirprwyaeth 1989 i Latfia, roedd o ddiddordeb mawr i mi i ddarllen yn rhifyn diwethaf Ymgyrch Cymru y derbyniwyd dau lythyr yn beirniadu'r amser a dreuliwyd y Ddirprwyaeth Heddwch yn trafod y sefyllfa wleidyddol fewnol yng Nghymru a Latfia.**

Cawsom groeso cynnes yno, ein trin y hael dros ben ac roedd gennym raglen lawn ac amrywiol. Fodd bynnag, ar ddiwedd yr wythnos, nid oeddwn wedi gweld Latfia'r werin bobl go iawn. Pan ddywedais wrth Zane, ein cyfieithydd medrus dros ben a fu'n ein tywys yn ystod ein hymweliad, y carwn ddychwelyd yn ddiweddarach, cefais wahoddiad personol ganddi ar unwaith i aros gyda hi a'i dwy ferch pryd bynnag y mynnwn.

Gyda chymorth Pwyllgor Heddwch Latfia, helpodd Zane fi i gael visa i ymweld o Hydref 31 i Dachwedd 30.

Blodau, blodau a mwy fyth o flodau. Cwt, ar ôl cwt ar ôl cwt o bobl yn disgwyl eu tro. Dyna yw Latfia heddiw. Mae'r blodau'n mynegi gobeithion a dymuniad pobl Latfia am ryddid i fyw eu bywydau eu hunain yn y modd a fynnant hwy, yn rhydd o dra-arglwyddiaeth Sofietaidd. Disgwyl eich tro mewn cwt yw realiaeth y sefyllfa bresennol, fel un o'r pymtheg Gweriniaeth Sofietaidd.

Er bod Latfia tua'r un maint â Chymru, ac wedi ei gefeillio gyda ni yn y mudiad heddwch, mae'r sefyllfa i bobl Latfia'n wahanol iawn i'n sefyllfa ni yng Nghymru.

Mae gan wersylloedd y Fyddin Goch gylchfa waharddedig o 10 cilomedr o'u cwmpas - ni chaiff neb fynediad heb ganiatad arbennig. Hyd y gallwn weld, nid oes unrhyw safleoedd niwclaer yn Latfia. Rwy'n credu bod rhai taflegrau SS20 yno ar un adeg, ond deallaf y symudwyd y rhain.

Euthum gyda Zane i ymweld â chadeirydd ac ysgrifennydd Pwyllgor Heddwch Latfia. Buom yn trafod ymweliad chwe aelod o fudiad heddwch Latfia â Chynhadledd CND Cymru ym mis Ebrill. Buom yn son hefyd am Orymdaith Heddwch Ryngwladol drwy Lithwania, Latfia ac Estonia a gynhelir fis Awst nesaf.

Gwelai'r Latfiaid hynny y medrais drafod materion yn ymwneud â heddwch a hwy y broblem niwclear fel rhan o gwestiwn ehangach y sefyllfa wleidyddiol fel yr effeithiai arnynt hwy, a phob amser yn gysylltiedig â hynnyroedd ecoleg y wlad, ac, yn enwedig, problem llygredd.

Nid yw cwestiwynau niwclear a diarfogi, iddynt hwy, yn faterion ar wahân, i'w trafod heb ddim cyfeiriad at y sefyllfa wleidyddol yn ei chrynswth.

**Bruce Watkins**

# Awchu am newid

**Mae pobl Hwngaria am newid. Maent am newid o'r system un blaid. Dydyn nhw ddim eisiau Comiwnyddiaeth. Ond dydyn nhw ddim yn gwybod beth ddylai gymryd lle hynny!**

Ymddengys bod perygl y bydd cyfalafiaeth yn cymryd drosodd, gyda gormesu ar aelodau tlotach cymdeithas o ganlyniad i hynny. Dywedodd un gwleidydd nad bygythiad milwrol oedd y bygythiad o'r gorllewin ers blynyddoedd bellach, ond un economaidd. Tybed a wireddir y bygythiad hwnnw yn awr?

Ymwelais â Hwngaria fel cynrychiolydd CND Cymru ar ddirprwyaeth CND gwledydd Prydain, ar wahoddiad Cyngor Heddwch Hwngaria. Roedd y Cyngor, sydd yn fudiad annibynnol, wedi trefnu i ni gwrdd â gwleidyddion a grwpiau heddwch. Euthum ati i geisio ymateb pobl i rai materion sydd, i'm tyb i, o bwys.

*Arfau Niwclear:* Yn gyffredinol, ystyrid bod arfau niwclear yn beryglus ac yn ddianghenraid. Gan nad oes arfau niwclear ar dir Hwngaria, nid oedd pobl yn ystyried eu bod yn fater o bwys mawr. Fodd bynnag, byddent yn gwrthwynebu dod â hwyi mewn i'w gwlad, ac yn cefnogi eu gwahardd yn llwyr.

*NATO a Chytundeb Warsaw:* Dywedodd mwy nag un llefarydd bod angen Cytundeb Warsaw er mwyn rheoli Rwmania. Mae'n debyg bod y bygythiad hwen wedi diflannu bellach!

Roedd eraill o'r farn mai'r sefyllfa ddelfrydol fyddai Hwngaria niwtral gyda rhywfaint o gefnogaeth gan yr Undeb Sofietaidd, fel y Ffindir.

Roedd yna gytundeb cyffredinol, fodd bynnag, mai da o beth fyddai diddymu'r ddau floc militaraidd, drwy negydu.

*Ynni Niwclear:* Dyma'r pwnc y bu mwyaf o drafod arno. Credai llawer o bobl, er cwrdd ag anghenion ynni'r wlad, mai ynni niwclear oedd yr unig ddewis arall, gyda dileu'r prosiect Trydan-dŵr ar afon Danube yn ddiweddar. Doedd neb yn son am arbed ynni neu ffynonellau adnewyddadwy amgen. Roedd y diffyg gwybodaeth a'r cam-hysbysu ar y pwnc hwn yn frawychus.

Derbynient fodoloaeth yr un orsaf ynni niwclear sydd yn Hwngaria, gyda'i phum adweithydd, heb feddwl fawr ddim am y problemau yr ydym ni yng ngwledydd Prydain wedi dod yn ymwybodol ohonynt yn y deng mlynedd ar hugain diwethaf.

Fodd bynnag, y farn gyffredinol oedd na allai Hwngaria fforddio rhagor o orsafoedd ynni niwclear. Nid oeddynt wedi ystyried diddordeb cyfalafwyr mewn dadlwytho'r hyn sydd wedi mynd yn dechnoleg annerbyniol yn y gorllewin, ar wledydd dwyrain Ewrop.

Roedd y cyfarfodydd gyda'r grwpiau heddwch yn destun gobaith mawr i mi. Maent yn canfod heddwch, fel y dywedsom, nid yn unig fel absenoldeb rhyfel. Fe'i gwelant fel cydbwysedd cynganeddol rhwng pobl a phobloedd, nid yn unig ar lefel fyd-eang ond hefyd o fewn cymunedau a theuluoedd.

Eu hamcanion yw gwneud y cyhoedd yn ymwybodol o'r peryglon sy'n bygwth bywyd dynol – yn enwedig y peryglon i'r amgylchedd a pheryglon arfau dinistr torfol.

**Rod Stallard**
***Is-gadeirydd CND Cymru***

# UN BYD

**Cam mawr i grŵp bach oedd trefnu gŵyl o'r fath – ond roedd y gymuned yn barod amdani. Daeth dros 400 o bobl i'r ŵyl un-dydd yn Neuadd y Dref, Rhuthun ar Hydref 28ain y llynedd.**

**'Dyma ddiwrnod hapusaf fy mywyd', cyhoeddodd un plentyn â'i freichiau ar led, ac yn wir, yr ymdeimlad hwnnw o hapusrwydd sydd wedi aros ym meddyliau pobl.**

**Roedd yr ŵyl yn ganolbwynt i bryder lleol am yr amgylchedd – 'Meddyliwch yn fyd-eang, gweithredwch yn lleol' oedd thema'r diwrnod. Ond yn anad dim roedd yn gyfle i'r gymuned ddod at ei gilydd a dathlu ei chlosrwydd a'i phosibiliadau creadigol.**

**Dilewyd rhagfarnau ynglŷn ag '-ymgyrchwyr heddwch' oherwydd roedd pawb yno. Gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod y diwrnod yn ddwyieithog, ac roedd y gefnogaeth yr un yn Gymraeg a Saesneg, wrth i ni sylweddoli bod materion fel heddwch, cyfiawnder a'r amgylchedd yn faterion sy'n gyffredin i ni oll, a bod angen i ni gydweithio arnynt.**

**Helpwyd pobl i weld y cysylltiadau rhwng materion sydd weithiau'n ymddangos yn bethau ar wahân. Gobeithio i bobl ymadael â'r ŵyl yn fwy ymwybodol o gyd-ddibyniaeth a chyd-gysylltiad pob peth: heddwch, cyfiawnder a'r holl gread.**

**Yr hyn sydd ar ôl yw'r angen – a'r cyfrifoldeb sydd arnom – am adeiladu ar yr ymwybyddiaeth hon, a'r ymdeimlad o gymuned a brofwyd gennym.**

Mary Johnson a Gaynor Morgan

# Labour and the bomb

*'Bombing Ahead With Disarmament'* by Llew Smith MEP and Dr David Lowry (£2.00)

**The authors have performed a useful service for CND supporters in the Labour and Trade Union movement in writing this pamphlet. Condensed within its 82 pages is a plethora of useful references and facts that will be invaluable to activists organising for nuclear disarmament within the Labour party.**

This is perhaps one of the weaknesses, that the authors see Britain getting rid of nuclear weapons only by the election of a Labour government committed to nuclear disarmament. They disregard all the other parties, in particular the Scottish National Party and Plaid Cymru.

It is this narrowness of vision that is suprising given that the authors clearly show how previous Labour administrations have not reduced Britain's nuclear weaponry, but actually conspired to increase it.

It does not increase our confidence in the present Labour policy of three Tridents and not four, when one reads what Harold Wilson wrote in his memoirs: "I discussed with Patrick Gordon Walker (Foreign Secretary) and Denis Healey (Defence Secretary) the future of the Polaris project ... We decided to go ahead with four of the projected five submarines and to ensure their development..."

Criticism apart, the authors have covered the entire nuclear cycle of uranium mining, nuclear power and weapons to demonstrate the hypocrisy and mis-information that has clouded this issue for so long.

As Europe moves into a new era, one that could see nuclear disarmament as a distinct possibility, the Labour Party could be one of the driving forces for change in Britain and the world. A failure to seize this historic opportunity could eventually marginalise it as a major political force. There are many others trying to replace it - Greens, Nationalists, Liberals.

The authors clearly recognise the opportunities and hopefully all Labour activists will read and use this pamphlet.

**Bob Cole**

# CONFERENCE AND MORE

**This year's annual CND Cymru conference, on April 21, will again be held in Aberystwyth. However, we want to make it more than a conference, more of an event that will attract a cross-section of CND members and our supporters.**

Over the last year, everyone has turned 'green', the politicians are now all environmentalists, but as we have argued in the past, you cannot have a green environment until we stop the waste of resources on weapons of mass destruction. CND is the missing segment in the debate.

This then will be the theme of conference and the events following, with invitations going to the political parties and environmental organisations to debate the issue. Not only will we have discussion, but entertainment as well.

However, we must not neglect our constitutional business which will be dealt with in the morning. The morning session, from 10.30 a.m. to 1 p.m. will consist of the necessary reports and resolutions, along with elections.

All resolutions must be submitted by February 21. Amendments and nominations must be submitted by March 21.

You have the opportunity to nominate the Chair, four Vice-chairs and the Treasurer.

For further details, contact Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. Tel: 0766 831356

# Nuclear-free Wales Week

CND Cymru needs money to carry on the campaign against nuclear weapons. Nuclear-free Wales Week is your opportunity to raise money for CND Cymru.

If you're part of a local group, can you help organise a fundraising event? If you're an individual member, can you make a donation or raise money from your friends?

Please send your contributions to CND Cymru, Brynelltyd, Tanysgrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. Thank you!

As well as the festival in Bangor on 24 February, two other events have been organised for Nuclear-free Wales Week. On Thursday 22 February, there will be an evening of entertainment at the Channel View Leisure Centre, Cardiff (7.30) and on Friday 23 February, Dafydd Iwan and friends will stage a benefit in the Caernarfon area.

For more information, contact Rhodri Glyn Thomas (0994 230121).


EISIAU 3 PHERSON I RANNU TYDDYN DWYIEITHOG (CYMRAEG/SAESNEG).
DIM ANGEN CYFALAF. BUWCH, GARDD ORGANIG, GWAITH COED, ALLANDAI.
SAWL POSIBILRWYDD. FFON: LLANGRANNOG 561.

THREE PEOPLE WANTED TO SHARE BILINGUAL SMALLHOLDING (WELSH/ENGLISH). NO CAPITAL NEEDED. COW, ORGANIC GARDEN, WOODWORK, OUTBUILDINGS. MANY POSSIBILITIES.
TEL: LLANGRANNOG 561.


## FFURFLEN AELODAETH AR GYFER EICH FFRINDIAU
## MEMBERSHIP FORM FOR YOUR FRIENDS

Enw/Name .................................... Llythrennau bras/Capitals letters

Cyfeiriad/Address ....................................................

..............................................................................

Sir/County .................................... Côd Post/Postcode ....................

**Membership/Tâl Aelodaeth**

Oedolyn/Adult £9 Cwpl/Couple £12

Myfyriwr/Student, Ieuenctid/Youth,

Heb waith a phensiynwyr/Unwaged and pensioners — all £3

Dymunaf gyflwyno rhodd/I wish to make a donation £........

Am aelodaeth amgaeaf/For membership I enclose £.........

Gwneler sieciau'n daladwy a danfoner i/Make cheques payable and send to:

*CND Cymru, 56 Bryn Aeron, Dyfnant, Abertawe/Swansea SA2 7UX*


**Labour's Defence Policy and nuclear disarmament.**

Price £2.00.

Send s.a.e. to
Llew Smith, MEP,
European Office, Hillside,
Crumlin, Gwent,
or CND Cymru Trading,
Yr Hen Orsaf,
Machynlleth, Powys




ERYRÍ
argraffwyr - printers
co-operative

Hen Efail, Bethel,
Caernarfon,
Gwynedd LL55 1UW.

Tel: Portdinorwic (0248) 761196

Only UNICEF agent in Wales



Visit
*The Peace Shop*
56 Mackintosh Place, Roath,
Cardiff. Tel (0222) 489260

– wide range of goods and cards from CND, Anti-Apartheid, Friends of the Earth




# LLAFUR A'R BOM

*'Bombing Ahead with Disarmament'* gan Llew Smith ASE a Dr David Lowry.

**Mae'r awduron wedi gwneud cymwynas â chefnogwyr CND yn y mudiad Llafur ac Undebol drwy ysgrifennu'r pamffled hwn. Yn gryno yn ei 82 tudalen, mae toreth o gyfeiriadau defnyddiol a ffeithiau a fydd o werth mawr i weithredwyr yn gweithio o blaid diarfogi o fewn y Blaid Lafur.**

Efallai mai dyma un o'r gwendidau, sef bod yr awduron o'r farn mai dim ond drwy ethol llywodraeth Lafur ag ymrwymiad i ddiarfogi niwclear y gwaredir Prydain o arfau niwclaer. Maent yn diystyru pleidiau eraill, yn enwedig Plaid Genedlaethol yr Alban a Phlaid Cymru.

Y culni gweledigaeth hyn sy'n synnu dyn, ag ystyried bod yr awduron yn dangos yn glir fel na bu i'r un llywodraeth Lafur flaenorol gwtogi ar arfau niwclear Prydain; yn hytrach, cynllwyniwyd i gynyddu eu nifer.

Nid yw'n cynyddu ein hyder ym mholisi presennol y Blaid Lafur o gael 3 Trident yn lle 4, pan ddarllenwn beth ysgrifennodd Harold Wilson yn ei Atgofion: 'Trafodais gyda Patrick Gordon Walker (Ysgrifennydd Tramor) a Denis Healey (Ysgrifennydd Amddiffyn) ddyfodol y prosiect Polaris... Dyma benderfynu bwrw ymlaen â phedair o'r pum llong danfor arfaethedig a sicrhau eu datblygu...'

Wedi hynny o feirniadaeth, teg yw dweud bod yr awduron wedi ymdrin â'r holl gylchdro niwclear o gloddio wraniwm, ynni ac arfau niwclear, i ddangos y rhagrith a'r camhysbysu sydd wedi cymylu'r pwnc hwn cyhyd.

Wrth i Ewrop symud i mewn i oes newydd, oes lle gellir canfod diarfogi niwclear fel posibilrwydd pendant, gallai'r Blaid Lafur fod yn un o'r prif rymoedd dros newid ym Mhrydain a'r Byd. Gallai iddi fethu ymaflyd yn y cyfle hanesyddol hwn arwain yn y man at ei gwneud yn ddibwys fel grym gwleidyddol. Mae llu o rai eraill yn ceisio ei disodli (Y Gwyrrdion, Cenedlaetholwyr, Rhyddfrydwyr).

Mae'r awduron yn amlwg yn cydnabod y cyfleoedd hyn, a gobeithio y bydd pob gweithredydd o fewn y blaid Lafur yn darllen y pamffled hwn a'i ddefnyddio.

**Bob Cole**

# CYNHADLEDD A MWY

**Cynhadledd dipyn yn wahanol fydd cynhadledd CND Cymru eleni. Fe'i cynhelir yn Aberystwyth unwaith eto, ar Ebrill 21ain.**

Fodd bynnag, rydym am wneud yr achlysur yn fwy na chynhadledd, yn ddigwyddiad a fydd yn denu croes-doriad o aelodau CND a'n cefnogwyr.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pawb wedi troi'n 'wyrdd', mae'r gwleidyddion oll bellach yn cefnogi'r amgylchedd, ond fel yr ydym wedi dadlau yn y gorffennol, ni ellwch sicrhau amgylchfyd gwyrdd hyd oni rhoddir terfyn ar wastraffu adnoddau ar arfau dinistr torfol. CND yw'r rhan sydd ar goll o'r ddadl.

Dyna fydd thema'r gynhadledd a'r digwyddiadau wedi hynny, gyda gwahoddiadau'n mynd at y pleidiau gwleidyddol, mudiadau'r amgylchedd ac ati i drafod y materion hyn. Ac nid trafodaethau yn unig fydd gennym, ond adloniant hefyd.

Fodd bynnag, ni fyddwn yn esgeuluso ein busnes cyfansoddiadol; ymdrinir â hwnnw yn y bore. Bydd sesiwn y bore, o 10.30 tan 1 p.m. yn cynnwys yr adroddiadau angenrheidiol, cynigion ac etholiadau.

Rhaid i bob cynnig ddod i law erbyn Chwefror 21ain. Rhaid i welliannau ac enwebiadau ddod i law erbyn Mawrth 21ain.

Gellwch enwebu Cadeirydd, 4 Is-Gadeirydd a Thrysorydd.

Am fanylion pellach, cysyllter â Bob Cole, Bryn Elltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Tel: 0766 831356.

# Wythnos Cymru Ddi-niwclear

Mae ar CND Cymru angen arian i barhau â'r ymgyrch yn erbyn arfau niwclear. Wythnos Cymru Ddi-niwclear yw'ch cyfle chi i godi arian i CND Cymru. Os ydych yn rhan o grŵp lleol, ellwch chi helpu i drefnu digwyddiad i godi arian? Os ydych yn aelod unigol, ellwch chi gyfrannu arian neu godi arian oddi wrth eich ffrindiau.

Danfonwch eich cyfraniadau, os gwelwch yn dda, at CND Cymru, Brynelltyd, Tanygrisiau, Blaenau Ffestiniog, Gwynedd. Diolch!

Mae dau ddigwyddiad wedi'u trefnu yn barod ar gyfer Wythnos Cymru Ddi-niwclear. Nos Iau 22ain o Chwefror bydd noson o adloniant yng Nghanolfan Hamdden Channel View yng Nghaerdydd (7.30 p.m.) a nos Wener, yr 23ain, bydd Dafydd Iwan a'i gyfeillion yn perfformio ynghylch Caernarfon.

Am ragor o fanylion, ffoniwch Rhodri Glyn Thomas (0994 230121), os gwelwch yn dda.


**New Look**




**Next Issue out MARCH 1st**

**Radical Wales Party Thursday March 1st**

**Phone *0222 231944* for more details**